

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 24^{ain} Medi 2013

Presennol: A. Mummery, A. Jones, J. Roberts, D. Williams, G. Parry, A. Thomas, B. Jones, E. Parry, Mervyn Jones, Phil Roberts, H. Huws, A. Williams.

1. Ymddiheuriadau: G.C. Jones, Meirion Jones.

2. Datganiadau Diddordeb - Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

3. Materion y Cyngor Sir

3.1 Safle Tŷ Mawr - datganiad i'w wneud fory gan Ieuan Wyn Jones

3.2 Llinellau melyn - y gwaith wedi'i wneud oni bai am Crossing Terrace. Nodwyd bod gwrthwynebiad wedi'i dderbyn gan berchennog un o'r siopau ar Ffordd Caergybi.

3.3 Maes parcio'r Gors - Y Clerc wedi cysylltu â Huw Percy yn y Cyngor Sir am gyngor ynglŷn â datblygu safle talu a pharcio. A. Mummery wedi dod o hyd i hen ddogfennau gellir defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer cael gweithredoedd newydd.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion 30^{ain} Gorffennaf 2013

Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan E. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

5.1 Ysgrifennu at Gyngorydd J. Evans i ofyn iddo a yw'n bwriadu do di gyfarfodydd y Cyngor Bro. Byddai'n fuddiol cael ei bresenoldeb ar faterion y Cyngor Sir gan ei fod yn eistedd ar y Pwyllgor Rheoli.

5.2 Nodwyd bod cyfarfod Un Llais Cymru ar y 9^{fed} Hydref.

5.3 Nodwyd bod ymateb wedi'i dderbyn gan y Prif Weinidog Carwyn Jones. Nodwyd bod cynrychiolydd o'r cynullid yn eistedd ar bwyllgorau ynni yn Ynys Môn.

5.4 Cynllun Adfywio Pentrefi - A. Mummery ac A. Jones wedi cyfarfod â Medwyn Williams ar gyfer cael cyngor ar y math o flodau i'w plannu yn y plotiau blodau. Awgrymodd plannu cennin pedr a rhosys arbennig sydd ddim angen llawer o waith cynnal a chadw. Medwyn Williams am yrru pris cadarn am y gwaith.

5.5 Maes Chwarae'r Gors - Derbyniwyd deiseb 900 o enwau gan Mr Emyr Evans yn galw am welliannau i'r maes chwarae. Adroddodd y Clerc ei bod wedi bod mewn cyswllt gyda rhai o'r rhieni sydd yn awyddus i weithredu a'u bod am sefydlu pwyllgor ar gyfer codi arian. Penderfynwyd gwahodd Aled Evans a Dawn Griffiths i gyfarfod Pwyllgor Meysydd chwarae ym mis Hydref.

5.6 Dyletswyddau Tirmon - cyflwynwyd swydd ddisgrifiad ddrafft gan y Clerc. Angen penderfyniad ar y math o gytundeb i'w gynnig. Gofyn i Meirion Jones am gyngor cyfreithiol.

5.7 Carnifal - nodwyd bod cadeiriau wedi'i gadael yn y pafiliwn ers y carnifal. Y Clerc i drefnu cael eu symud.

5.8 Ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno ar ddisg cryno. Y Clerc i ofyn am esboniad o bolisi'r adran gynllunio.

5.9 Maes Parcio Trem Eryri - y Clerc i gysylltu â'r adran briffyrdd ar gyfer cael llinellu'r maes parcio.

5.10 Cynghrair Iaith - Meirion Jones a G. C. Jones wedi mynychu'r cyfarfod yn ystod yr eisteddfod.

6. Cofnodion Pwyllgor y Fynwent 3^{ydd} Medi 2013

Cynigwyd gan G. Parry ac eiliwyd gan A. Williams. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion

7.1 Nodwyd bod y cwmni torri gwair, Môn Grass Cutting Services yn gwneud gwaith taclus iawn a bod y fynwent mewn cyflwr da.

7.2 Symud mainc - y gwaith ar y gweill.

7.3 Sedd wag ar y pwyllgor.

8. Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 3^{ydd} Medi 2013

Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan A. Mummery. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Materion yn codi o'r cofnodion

9.1 Angen diweddarau rhestr ymddiriedolwyr yn y pwyllgor nesaf.

9.2 Ymgyrch casglu arian - angen trefnu cyfarfod gyda Menter Môn er mwyn symud ymlaen gyda cheisiadau am grantiau. Y Clerc hefyd i wneud ymholiadau gyda Neuadd Ogwen, Bethesda.

10. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 17^{eg} Medi 2013

Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan B. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

11. Materion yn codi o'r cofnodion

10.1 Tŵr Marcwis - y clerc i gysylltu â chwmni Peckover Burrell yr asiant ar gyfer y stad ynglyn â chyflwr y grisiau.

10.2 Cynlluniau Capita Symonds ar ffeil ar gyfer cynllunio ar gyfer grantiau.

10.3 Y Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir ynglyn â grant ail gylchu.

10.4 Bin sbwriel maes parcio Ty'n Rhos - gofyn am gael ei symud i'r Gors.

12. Ceisiadau Cynllunio

Tyrbinau Gwynt Bryn Eryr - Llansadwrn - nodwyd bod y cais yn cael ei alw i mewn.

13. Cyfrifon mis Awst a Medi 2013

Cyflwynwyd y cyfrifon ac ychwanegwyd taliad o £30.00 i Un Llais Cymru am Hyfforddiant i J. Roberts.

Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

14. Gohebiaeth

14.1 CSYM - codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd

14.2 CSYM - Gwyro llwybr cyhoeddus rhif 11 Penmynydd

14.3 CSYM - Diddymu llwybr cyhoeddus rhif 3 Llanfairpwll

14.4 CAB - Cyfarfod Blynyddol 23 Hydref 2013

14.5 Cynulliad - cymeradwyaeth benthycu. Y Clerc wedi anfon y cais ymlaen i'r Public Works Loan Board.

14.6 Cylchgrawn Clerks and Councils Direct.

14.7 Cwyn wedi'i dderbyn drwy e-bost am sŵn yn dod o'r Neuadd Goffa wedi 10 y nos. Nodwyd mai band oedd yn ymarfer yno a chytunwyd i ofyn iddynt orffen erbyn 9 y nos a chadw'r sŵn i lawr os posib.

Y Clerc i hysbysebu'r gofalwr am hyn.

15. Unrhyw Fater Arall

15.1 Adroddodd y Clerc ei bod yn teimlo na allai barhau gyda'r swydd oherwydd pwysau gwaith llawn amser a gofynion teuluol. Cytunwyd i edrych i mewn i rannu'r swydd yn ddwy sef Clerc a Swyddog Cyllid. Y Clerc i ofyn i Gyngor Tref Porthaethwy sut y maent wedi rhannu'r gwaith.

15.2 Sgowtiaid Llanfairpwll eisiau cymryd rhan yn y gwasanaeth ar Sul y Coffa. Gofyn i Jim Clark.

15.3 Un Llais Cymru wedi penodi swyddog newydd i'r Gogledd.

15.4 Pwyllgor Safonau - cwyn yn erbyn cynghorydd cymuned wedi'i daflu allan.

15.5 Mynedfa co-operative - A. Mummery wedi cael cyngor gan y Cyngor Sir. Os yw'r cwmni am osod drych gyferbyn a'r fynedfa bydd rhaid iddynt ofyn am ganiatâd gan y Cyngor Sir. Y Clerc i gysylltu â Co-op i'w hysbysebu.

15.6 Bin baw ci - angen ei ddilyn i fyny.

15.7 Parcio ger yr ysgol - nodwyd bod y sefyllfa parcio wedi gwaethygu, yn arbennig ger ochr Tyn Llon. I'w godi gyda Llywodraethwyr yr ysgol.

15.8 Nodwyd bod bysus yn parcio ger y fynedfa yn y co - op. Mater amserlen y cwmni yw hyn ond dylid gofyn iddynt symud i ben draw'r maes parcio tan yr amser priodol ac yna symud yn ôl at y fynedfa.

15.9 Adroddwyd bod carafán wedi'i barcio ym maes parcio Trem Eryri. A. Williams i hysbysebu'r Cyngor Sir.

15.10 Damwain wedi digwydd ger Pont Britannia/A5. Y mater i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 29ain Hydref am 7.00 yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd (Cadeirydd)Dyddiad